# Twf, Cyfle a Thegwch

## Maniffesto 2026



ColegauCymru
CollegesWales

TWF, CYFLE A THEGWCH
GROWTH, OPPORTUNITY AND FAIRNESS

## Rhagair

Mae'r maniffesto hwn yn nodi sut gall y sector Addysg Bellach fod yn rhan o fynd i'r afael â'r heriau y bydd Cymru yn eu hwynebu dros y ddegawd nesaf - yr her o sero net, cyflawni twf economaidd cynaliadwy, newid technolegol cyflym, a gofynion newydd ar wasanaethau cyhoeddus.



**Rwyf wrth fy modd o gael cyflwyno Maniffesto ColegauCymru cyn Etholiad y Senedd yn 2026.**

Mae llwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol yn ddibynnol ar sgiliau ein pobl, buddsoddi mewn sgiliau yw'r ffactor pwysicaf mewn twf economaidd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yng Nghymru.

Mae colegau yn falch o'u rôl fel sefydliadau angor o fewn eu cymunedau ac economïau lleol. O symud ymlaen i'r brifysgol, gwneud prentisiaeth, dychwelyd i addysg fel oedolyn neu hyfforddi fel plymwr, gosodwr systemau pympiau gwres, arbenigwr diogelwch seiber, dylunydd gwe, neu nyrs, mae colegau yn lleoedd lle gall pawb lwyddo. Maent yn sbarduno newid cadarnhaol ac yn hanfodol os yw Cymru am gael y dyfodol rydym i gyd yn ei haeddu.

**Lisa Thomas**
Cadeirydd, ColegauCymru
Pennaeth a Phrif Weithredwr, Y Coleg Merthyr Tudful



Bydd tymor nesaf y Senedd yn gyfnod diffiniol ar gyfer dyfodol Cymru. Bydd heriau sero net, cyflawni twf economaidd cynaliadwy, newid technolegol cyflym, a gofynion newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn siapio dyfodol Cymru am genhedlaeth.

# Cyflwyniad

**Bydd tymor nesaf y Senedd yn gyfnod diffiniol ar gyfer dyfodol Cymru. Bydd heriau sero net, cyflawni twf economaidd cynaliadwy, newid technolegol cyflym, a gofynion newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn siapio dyfodol Cymru am genhedlaeth.**

Bydd penderfyniadau anodd ar gyfer pwy bynnag fydd ein Prif Weinidog nesaf, ond nid oes map ffordd i gyrraedd y fersiwn o Gymru y mae pob plaid wleidyddol eisiau ei hadeiladu, nad yw'n ddibynnol ar sector Addysg Bellach (AB) cryf, gwydn a llwyddiannus. Dylai partneriaeth newydd a chryfach gyda cholegau fod wrth galon Llywodraeth nesaf Cymru.

Mae AB yn stori lwyddiant o ddatganoli. Dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf mae'r sector wedi trawsnewid oherwydd bod arweinwyr yn barod i wneud y penderfyniadau anodd oedd eu hangen er mwyn bod yn ariannol gynaliadwy a darparu addysg a hyfforddiant o safon. Mae colegau wedi ennill yr hawl i gael ymddiriedaeth y llywodraeth ac mae ein sector unwaith eto'n barod i chwarae ei ran wrth wynebu heriau'r dyfodol.

Er gwaethaf cryfderau'r sector, mae angen ail-gydbwyso'r system i helpu i wella cyfranogiad a dilyniant, i fodloni anghenion cyflogwyr yn well a datgloi pŵer addysg i fynd i'r afael â thlodi a chodi safonau byw. Rydym wedi dod yn bell o'r cyfnod pan yr oedd AB yn cael ei ystyried yn wasanaeth Cinderella, ond mae gennym gryn ffordd i fynd cyn y bydd colegau'n derbyn adnoddau digonol, yn cael eu gwerthfawrogi ac ag ymddiriedaeth llunwyr polisi a rheoleiddwyr.





# Diwygio ar sail cenhadaeth

**Mae heriau difrifol a brys yn wynebu Cymru dros y degawd nesaf.**

Mae Cymru yn cael ei siomi gan system ysgol sydd â llwybrau tuag at gyflawniad sy'n rhy gul a lle mae llawer o bobl ifanc yn cael eu gadael ar ôl. Mae ein llwyddiant economaidd yn y dyfodol yn ddibynnol ar sgiliau ein pobl, ac eto mae llawer o oedolion yn gaeth i waith sgil isel a chyflog isel. Mae ein methiant fel cenedl i fuddsoddi mewn sgiliau yn atal twf. Bydd technoleg newydd ac economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym yn heriau a fydd yn diffinio tymor nesaf y Senedd a nawr yw'r amser i wneud newid unwaith mewn cenhedlaeth mewn sgiliau a chyfleoedd.

Mae anghydraddoldebau hefyd yn dod yn fwy sefydledig yng Nghymru. Mae colegau yn cyfrannu'n weithredol tuag at ddatblygu Cymru fwy cyfartal, gan ddarparu cynigion dysgu cynhwysol, a chefnogi'r grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Mae colegau yn hyrwyddo cydraddoldeb o ran cyfleoedd ac yn lleihau anghyfartaledd, gan feithrin cymdeithas sy'n fwy cynhwysol. Mae'r sector ar y rheng flaen pan ddaw i ddatblygu Cymru sy'n wrth-hiliol a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Fodd bynnag, dim ond gyda buddsoddiad tymor-hir digonol y gall y gwaith hwn barhau. Mae anghenion dysgwyr wedi newid yn sylweddol yn y pum mlynedd diwethaf, gan gynyddu'r pwysau ar staff cymorth bugeiliol arbenigol colegau.

Mae gan golegau'r atebion i'r heriau hyn i gyd a rhaid i rôl y Prif Weinidog nesaf gynnwys grymuso'r sectorau AB a Dysgu Seiliedig ar Waith i lywio newid gwirioneddol a pharhaol. Dylai partneriaeth newydd a chryfach gyda cholegau fod wrth galon Llywodraeth nesaf Cymru a ffocws newydd sydd wedi'i lywio gan genhadaeth ar ail-gydbwyso'r system a gwella canlyniadau ar gyfer pob dysgwr.

Credwn fod tair cenhadaeth y dylai Llywodraeth nesaf Cymru eu blaenoriaethu a chefnogi'r sectorau AB a Dysgu Seiliedig ar Waith i'w cyflawni:

## Cenhadaeth Un

**Tyfu'r economi** drwy arfogi'r diwydiant a'r gweithlu gyda'r sgiliau sydd eu hangen i wynebu'r heriau a ddaw o economi sy'n newid o ganlyniad i sero net a datblygiad Deallusrwydd Artiffisial (AI).

## Cenhadaeth Dau

**Gwella diyniant, cyfranogiad a chanlyniadau** mewn addysg ôl-16 drwy chwalu rhwystrau, helpu pobl ifanc wneud y penderfyniadau cywir ynghylch eu dyfodol a bod yn barod ar gyfer byd gwaith, a darparu addysgu a dysgu o ansawdd uchel.

## Cenhadaeth Tri

**Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng cenedlaethau a thlodi** drwy addysg i oedolion a mynediad at ddysgu ail gyfle.

## Cenhadaeth Un

**Tyfu'r economi drwy arfogi'r diwydiant a'r gweithlu gyda'r sgiliau sydd eu hangen i wynebu'r heriau a ddaw o economi sy'n newid o ganlyniad i sero net a datblygiad Deallusrwydd Artiffisial.**

Ledled y byd, mae diwydiannau yn cael eu hail-siapio'n gyflym gan dechnolegau sy'n datblygu a brys ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd. Er mwyn i Gymru fod yn gystadleuol, rhaid i'r llywodraeth nesaf gyflawni newid sylweddol a buddsoddi a diwygio ein system sgiliau fel y gall pobl o bob oedran gael mynediad at gyfleoedd yn eu hardal ac fel y gall busnesau gael mynediad at y dalent a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i dyfu.

I gyflawni'r genhadaeth hon, dylai llywodraeth nesaf Cymru, gan weithio gyda Medr:

- Datblygu **Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (VET)** sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau economaidd a diwydiannol Cymru. Mae'r strategaeth yn hanfodol i sbarduno twf economaidd ac i ddatblygu'r sgiliau gwyrdd sydd eu hangen ar gyfer heddiw ac ar gyfer y dyfodol. Byddai'r strategaeth yn darparu fframwaith arweiniol ar gyfer Cymwysterau Cymru, cyrff dyfarnu a darparwyr, a byddai'n sicrhau bod llinell glir o atebolrwydd democrataidd o fewn y system.
- Ategu'r Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol gyda **chreu Awdurdod Sgiliau'r Dyfodol newydd.** Bydd hyn yn darparu gwybodaeth a mewnwelediadau o'r radd flaenaf am y farchnad lafur fel y gall y llywodraeth, rheoleiddwyr a darparwyr ddeall bylchau mewn sgiliau'r dyfodol a lle mae angen buddsoddi.
- Gweithio gyda'r Sector Addysg Bellach i **gyflymu'r datblygiad o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer defnydd cyfrifol ac effeithiol o Ddeallusrwydd Artiffisial.** Gyda chefnogaeth, gall colegau gynnwys y sgiliau technegol ac annhechnegol sydd eu hangen ar gyfer AI mewn rhaglenni galwedigaethol ac i gyflwyno argaeledd sgiliau AI yn y gymuned.
- **Ail-ymrwymo i Raglen Brentisiaethau newydd** i gynnal y momentwm a gyflawnwyd dros ddau dymor diwethaf y Senedd. Dylai llywodraeth nesaf Cymru wrthdroi'r toriadau i'r Rhaglen Brentisiaethau ac ail-ymrwymo i ddarparu o leiaf **125,000** o brentisiaethau o safon ac i bob oedran dros dymor nesaf y Senedd. Mae angen i ni ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o swyddi yn y sector preifat a helpu i ailadeiladu gwasanaethau cyhoeddus allweddol.
- **Rhoi rôl ganolog i golegau wrth gyflwyno'r rhaglen cyflogadwyedd datganoledig newydd.** Fel sefydliadau angor ac nid-er-elw yn eu cymunedau lleol, mae colegau mewn sefyllfa dda i ddarparu gwasanaeth newydd wedi'i lywio gan werth cymdeithasol sy'n gallu cysylltu addysg leol, sgiliau a chymorth iechyd.
- **Ariannu colegau i gyflwyno darpariaeth ehangach ar Lefelau 4 a 5,** gan gynnwys Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch a Diplomâu Cenedlaethol Uwch, lle mae angen economaidd lleol a rhanbarthol uniongyrchol.
- **Ariannu colegau i gynnig cyrsiau byrrach ar sail modiwlau** i alluogi pobl i ddatblygu eu sgiliau a'u cymwysterau dros amser, ynghyd ag ail-sgilio. Fel rhan o'r dull hwn, dylai colegau gael eu cefnogi i weithio ar y cyd ar gynllun bathodynnau digidol i gydnabod sgiliau, dysgu blaenorol, a chymwyseddau dysgwyr.



Mae addroddiad Medr 2025 (C2 2024/25 yn dangos bod gostyngiad o 20% yn nifer y prentisiaethau a ddechreuodd (o'i gymharu â gostyngiad o 12% yn y chwarter blaenorol). Mae'r gostyngiad yn nifer y prentisiaethau a ddechreuodd yn cyd-daro â gostyngiad yn y cyllid prentisiaethau cyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf, yn rhannol oherwydd colli ffrydiau ariannu'r UE.

**20%**

Yn y sector adeiladu, roedd y prentisiaethau a ddechreuwyd i lawr 48%, gan waethygu prinder gweithwyr yn y diwydiant adeiladu sydd ei angen ar gyfer sgiliau gwyrdd a thwf yn y dyfodol.

**48%**

Bydd diwydiant adeiladu ffyniannus a gweithwyr medrus yn hanfodol ar gyfer bodloni targedau sero net a chyflawni'r sgiliau gwyrdd sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

Fe wnaeth data diweddar gan berchennog Screwfix a B&Q, Kingfisher Plc, hefyd ddangos fod disgwyl i'r DU golli allan ar £98 biliwn o dwf erbyn 2030 oherwydd prinder gweithwr[1].

**£98bn**

Roedd data Medr hefyd yn dangos lleihad o 12% mewn dechreuadau prenisiaethau Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus, gan waethygu prinder staff o fewn y GIG ymhellach.

**12%**

Fe wnaeth y gostyngiad o 20% olygu bod 915 yn llai o bobl yn manteisio ar gyfleoedd prentisiaeth.

**915**

[1] Hydref 2023 - UK to lose out on £98bn of growth by 2030 due to shortage of tradespeople (kingfisher.com)

# Astudiaeth Achos: Sgiliau ar gyfer y Pontio i Sero Net



## Mae colegau AB ar draws Cymru yn arwain cynlluniau sgiliau gwyrdd.

Er enghraifft, cyfranogiad Coleg Sir Benfro a Grŵp Llandrillo Menai mewn prosiectau ynni gwynt a hydrogen. Mae Coleg Sir Benfro wedi dylunio cyfleusterau hyfforddiant, datblygu cwricwlwm penodol, ac wedi uwchsgilio a hyfforddi staff, ac mae gweithwyr yn RWE Energy yn cwblhau Graddau Peirianneg yn Grŵp Llandrillo Menai. Mae gan Grŵp Llandrillo Menai hefyd weithdy pwrpasol ar gyfer prentisiaid a staff RWE yn y Rhyl.

*un o'r cwmnïau blaenllaw ym maes ynni adnewyddadwy, gan yrru'r trawsnewid ynni ymlaen yn Ewrop a ledled y byd



## Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn darparu hyfforddiant sgiliau gwyrdd ar gyfer Asiantaeth Tai Pobl.

Mae'r coleg wedi hyfforddi nifer o'u staff mewn paneli Solar Photovoltaic, Batris a Cherbydau Trydan, ac wedi darparu hyfforddiant sgiliau gwyrdd pellach i'w cadwyn gyflenwi ac isgontractwyr. Coleg Gŵyr Abertawe hefyd yw prif bartner addysg Pobl yn eu Rhaglen Llwybr Gyrfaoedd Gwyrdd a fydd yn hyfforddi busnesau a phobl ifanc mewn amrywiaeth o gyrsiau sgiliau gwyrdd mewn partneriaeth â Pobl.

*Sefydliad tai, gofal a chymorth Cymreig nid er elw





# Cenhadaeth Dau

## Gwella dilyniant cyfranogiad a chanlyniadau mewn addysg ôl-16 drwy chwalu rhwystrau, helpu pobl ifanc wneud y penderfyniadau cywir ynghylch eu dyfodol a bod yn barod ar gyfer byd gwaith, a darparu addysgu a dysgu o ansawdd uchel.

Mae'r galw am AB gan unigolion sy'n gadael yr ysgol yn codi ac mae mwy o ddysgwyr yn dewis mynychu colegau ar gyfer cyrsiau academaidd a galwedigaethol. Fodd bynnag, nid yw llawer o bobl ifanc yn ymwybodol o'r ystod o lwybrau sydd ar gael yn y coleg, yn enwedig y cyfle am addysg a hyfforddiant galwedigaethol o safon.

Mae gwasgfa ar ddau ben y sbectrwm cyrhaeddiad. Ar un llaw mae llawer gormod o bobl ifanc yn gadael addysg orfodol gyda dim neu ychydig o gymwysterau a gyda lefelau llythrennedd a rhifedd gwael. Mae llawer yn gadael addysg yn gyfan gwbl neu'n cyrraedd y coleg heb fod yn barod i astudio ar Lefel 3. Ar lefelau uwch o gyrhaeddiad, mae cyfran y bobl ifanc o Gymru sy'n dewis peidio â mynd i'r brifysgol yr isaf yn y DU. Ni all cadw pethau'r un fath fod yn opsiwn ar gyfer y llywodraeth nesaf ac mae angen i ni ail-gydbwyso'r system i wella dilyniant, codi safonau ac i sicrhau fod dysgwyr yn cael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer eu dyfodol.

Rhaid i ddysgwyr allu cael mynediad at lwybrau galwedigaethol o ansawdd uchel drwy gydol y cyfnod 14-19. Rydym hefyd eisiau gweld cydweithio a chynllunio ar gynigion cwricwlwm lleol. Rhaid i ddisgyblion ysgol gael mynediad at gyngor ac arweiniad annibynnol o ansawdd uchel gyda cholegau sy'n gallu darparu gwybodaeth yn uniongyrchol i bob disgybl.

I gyflawni'r genhadaeth hon, dylai llywodraeth nesaf Cymru, gan weithio gyda Medr:

- **Ymrwymo i Lwybr Dysgu a Dilyniant 14-19 newydd** fel bod gan bob dysgwr fwy o ddewis a gwell cyfleoedd i symud ymlaen ar y llwybr sy'n addas iddyn nhw. Dylai hyn gynnwys cydweithio rhwng ysgolion a cholegau i wella argaeledd a chyfranogiad opsiynau galwedigaethol, gan gynnwys VCSEs, a'r ystod o gymwysterau academaidd sydd ar gael yn lleol.
- Cyflwyno **dyletswydd newydd i awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau weithio gyda'i gilydd i ddatblygu llwybrau dysgwr lleol ac i gefnogi dilyniant.** Dylai trefniadau cynllunio lleol newydd fod yn sail i bob dysgwr allu cael mynediad at addysg o ansawdd uchel rhwng 14 a 19 oed. Dylai hyn gael ei gefnogi gan gyllid cenedlaethol i gyflwyno darpariaeth alwedigaethol ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed ac i gefnogi estyniad o'r rhaglenni Prentisiaethau Iau.
- Dechrau **adolygiad o gynaladwyedd chweched dosbarth mewn ysgolion,** fel rhan o sector trydyddol cydlynol. Dylai hyn ddechrau o fewn 100 diwrnod cyntaf y llywodraeth newydd a dylai archwilio tystiolaeth i ganfod cynaliadwyedd chweched dosbarth mewn ysgolion bychan. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ystyried yr her ddaearyddol mewn rhai rhannau o Gymru, ynghyd â phwysigrwydd sicrhau parhad dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond yn credu fod lle am ddiwygio sylweddol i roi mynediad at gwricwlwm llawn, ansawdd uchel a lleol i bob dysgwr.



- **Gwella mynediad at gyngor ac arweiniad gyrfaoedd annibynnol ar gyfer dysgwyr 14-19** fel y gall pobl ifanc wneud y dewisiadau cywir y tro cyntaf. Ochr yn ochr â hyn, rhaid caniatáu i golegau gael mynediad i ysgolion i roi cyngor a gwybodaeth wyneb yn wyneb i'r holl ddysgwyr fel y gallant ddeall eu hopsiynau a gwneud penderfyniadau gwybodus.
- **Gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â theithio dysgwyr,** fel nad yw trafnidiaeth byth yn rhwystr i ddysgu, lleoliadau hyfforddiant neu gael mynediad at weithgareddau cyfoethogi. Fel blaenoriaeth, dylai llywodraeth nesaf Cymru gyflwyno cymorth cenedlaethol ar gyfer teithio dysgwyr fel bod pob dysgwr yn cael ei drin yn gyfartal p'un a ydynt yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus megis bysiau, neu drafnidiaeth a ariennir gan y coleg fel bysiau neu drenau.
- **Ymrwymo i gyllid cynaliadwy ar gyfer Hyfforddwyr bugeiliol.** Yn 2025, fe wnaeth Estyn[2] dynnu sylw at sut mae colegau yn wynebu heriau cynyddol pan ddaw i sgiliau cymdeithasol a gwydnwch. Mae camddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn dod yn fwy cyffredin. Nid yw gofal bugeiliol yn ddewisol, mae gwaith Hyfforddwr Bugeiliol yn newid bywydau, ac yn achub bywydau. Mae anghenion dysgwyr wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac maent yn gynyddol gymhleth, yn cymryd llawer o amser i staff, ac yn gofyn am waith amlasiantaeth. Felly mae cyllid cynaliadwy ar gyfer Hyfforddwyr Bugeiliol yn hanfodol i ddysgwyr, ac ar gyfer lleihau llwyth gwaith i staff addysgu.
- **Ymrwymo i gyllid cynaliadwy ar gyfer darpariaeth iechyd meddwl a llesiant** mewn colegau. Mae nifer yr atgyfeiriadau, llesiant a diogelu yn cynyddu bob blwyddyn ers 2021/22. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi dulliau ataliol gan gynnwys rhaglenni lles actif, sy'n creu cymunedau coleg iachach a mwy gwydn.
- **Sicrhau bod rhaglen Taith Llywodraeth Cymru yn parhau i gael ei chefnogi** fel y gall gweithgareddau cyfoethogi i ddysgwyr o bob oed a chefndir barhau, a gall symudedd staff wella arferion addysgu, dysgu a chymorth bugeiliol. Rhaid i golegau hefyd fod yn rhan o drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch dychwelyd i Erasmus+. Byddai ailymuno ag Erasmus+ yn gyfle croesawgar i gryfhau ac ailadeiladu ein perthnasoedd â phartneriaid Ewropeaidd.
- **Mae angen buddsoddiad sylweddol o fewn y sector addysg ar bob lefel i gwrdd â tharged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.** Bydd angen trefniadau pontio cadarn ar gyfer y garfan newydd o ddysgwyr er mwyn galluogi'r Sector Addysg Bellach i ymateb i Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Mae'r Sector Addysg Bellach yn allweddol i lwyddiant yr uchelgeisiau 2050 a bydd angen cefnogaeth ariannol bellach i recriwtio staff newydd ac uwchsgilio staff presennol i allu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae colegau'n cefnogi eu staff i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, fodd bynnag, bydd angen ymrwymiad sylweddol a buddsoddiad ychwanegol i alluogi gweithlu'r Sector Addysg Bellach i gyflawni uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi nodi tri chynnig sy'n ymwneud ag ehangu'r ddarpariaeth a recriwtio ac uwchsgilio staff. Mae costau'r cynigion (erbyn diwedd blwyddyn 3) ychydig dros £1 miliwn. [3]
- **Sicrhau bod colegau'n derbyn digon o gyllid i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).** Mae cynnal lefelau staffio mewn colegau yn hanfodol i reoli'r llwyth gwaith cynyddol o ganlyniad i ddyletswyddau statudol o dan ALNET. Mae rhagamcanion gan arweinwyr ADY colegau yn dangos costau ychwanegol sy'n fwy na £3 miliwn ar gyfer 2025/26. Heb fuddsoddiad cynaliadwy, mae ansawdd a chynaliadwyedd darpariaeth gynhwysol mewn perygl.

[2] Mai 2025 - Adroddiad Thematig Estyn: Ymddygiad Dysgwyr mewn Colegau Addysg Bellach

[3] Maniffesto 2026 Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae absenoldebau ysgol, yn enwedig ymysg pobl ifanc 14-16 oed, wedi cynyddu yn dilyn y pandemig. Adroddwyd bod absenoldeb hyd at 42.6%.

42.6%

Gostyngodd y gyfradd absenoldeb gyffredinol yn yr ysgol 6.3% rhwng 2018 a 2023.

6.3%

Ym mlwyddyn 2023/24, roedd dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM) yn absennol am 20.1% o'r holl sesiynau ysgol, bron ddwywaith y 10.5% a gofnodwyd yn 2018/19.

20.1%

Ystyriwyd bod 49% o absenoldebau'r rhai ar FSM yn 2023/24 yn anawdurdodedig.

49%

Mae hyn o'i gymharu â dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim lle roeddent yn absennol am 9.8% o'r holl sesiynau ysgol yn 2023/2024.

9.8%





## Astudiaeth achos: Adeiladu partneriaethau ysgol a choleg ar draws Gogledd a Gogledd-orllewin Cymru



Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi sefydlu rhwydwaith cadarn o ddarpariaeth gydweithredol ar draws Gwynedd, Ynys Môn, a Chonwy, gan weithio'n agos gydag ysgolion i ehangu mynediad at addysg alwedigaethol a chefnogi dilyniant i gyflogaeth fedrus ac addysg uwch.

Mae Rhwydwaith 14–19 Conwy yn bartneriaeth ddatblygedig sy'n dwyn ynghyd uwch arweinwyr o Goleg Llandrillo, swyddogion awdurdod lleol, a phob ysgol uwchradd brif ffrwd ar draws y sir. Trwy'r bartneriaeth hon, mae'r coleg wedi amrywio ac ehangu cyfleoedd i ddysgwyr 14–16 oed mewn sectorau blaenoriaeth.

Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, mae consortiwm 14–19 hirhoedlog yn gweld Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i ddarparu ystod eang o gyrsiau galwedigaethol. Bob blwyddyn, mae tua 800 o ddysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11, sy'n cynrychioli dros 20% o gyfanswm y garfan ar draws y ddwy sir, yn mynychu'r coleg am ran o'u hwythnos i astudio pynciau fel Adeiladu, Peirianneg, Gwasanaethau Cyhoeddus, Teithio a Thwristiaeth, a Gwallt a Harddwch. Cefnogir y ddarpariaeth gan gydlynydd consortiwm ymroddedig, sy'n cael ei ariannu gan y ddau awdurdod lleol.

# Mae'r cydweithrediad hwn wedi creu teithiau dysgwyr rhagorol:



Dechreuodd **Lewis Llywelyn Blease** ei lwybr galwedigaethol drwy'r bartneriaeth 14–16 yng Ngholeg Menai, gan symud ymlaen drwy lefelau prentisiaeth olynol a chwblhau gradd anrhydedd mewn Systemau Peirianneg Fecanyddol Gymhwysol a ddyfarnwyd gan Brifysgol Bangor.



Symudodd **Stephanie Preston**, o Gaergybi, o Beirianneg 14–16 yng Ngholeg Menai i raglen Lefel 3 amser llawn cyn sicrhau prentisiaeth Peirianneg Awyrennol gyda Babcock International yn RAF Valley. Ers hynny mae hi wedi dod yn fodel rôl i fenywod mewn peirianneg yn y rhanbarth.



Mynychodd **Harry Sutherland**, disgybl yn Ysgol Botwnnog, ddarpariaeth Peirianneg Coleg Meirion-Dwyfor gyntaf cyn symud ymlaen i gwrs plastro Lefel 2 yng Ngholeg Menai. Aeth ymlaen i ennill aur mewn plastro yn Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills UK ac mae wedi sefydlu ei fusnes ei hun wrth barhau â'i astudiaethau Lefel 3.

Yng Ngholeg Llandrillo, mae'r rhaglen Lefel 1 arloesol Cyflawni Gwaith Peirianneg yn darparu sgiliau morol ac adeiladu ymarferol i ddisgyblion Blwyddyn 11 trwy ddysgu seiliedig ar brosiectau. Mae hyn yn arwain at fyfyrwyr yn lansio cychod bach wedi'u hadeiladu â llaw ar Afon Menai bob haf, gan arddangos eu cyflawniadau i deuluoedd ac ysgolion. Mae cadw a phresenoldeb yn fwy na 90%, gyda 80% o ddysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau Lefel 2 neu 3 neu'n sicrhau cadetiaethau yn y diwydiant morwrol.

Ar draws y Grŵp, mae'r partneriaethau hyn yn dangos sut y gall cydweithio cynaliadwy drawsnewid canlyniadau, gan gynnig opsiynau galwedigaethol o ansawdd uchel i ddysgwyr yn eu cymunedau a llwybrau clir i astudiaeth bellach, prentisiaethau a chyflogaeth.





# Cenhadaeth Tri

## Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng cenedlaethau a thlodi drwy addysg i oedolion a mynediad at ddysgu ail gyfle.

Mae datgloi twf tymor-hir, gwella safonau byw a mynd i'r afael â thlodi rhwng cenedlaethau yn ddibynnol ar allu pobl i gael mynediad at gyfleoedd i ddysgu yn eu cymunedau, ail-sgilio ac uwch-sgilio ar gyfer swyddi'r dyfodol a chael mynediad at ddysgu ar gyfer iechyd a llesiant. Mae'r llwybr at Gymru decach a mwy ffyniannus yn ddibynnol ar ariannu a chefnogi colegau i ddarparu'r cyfleoedd dysgu hyblyg sydd eu hangen ar oedolion yn ystod gwahanol gyfnodau yn eu bywydau.

I gyflawni'r genhadaeth hon, dylai llywodraeth nesaf Cymru, gan weithio gyda Medr:

- Ymrwymo i **gyflwyno hawl newydd i ddysgu gydol oes ar gyfer pob oedolyn** yng Nghymru. Dylai hyn fod yn nod polisi tymor-hir sy'n dechrau gyda gwrthdroi toriadau i addysg i oedolion, cyflwyno llinellau cyllid newydd i alluogi colegau i ddarparu ailsgilio ac uwchsgilio cyflym a hyblyg ac sy'n galluogi unigolion gael mynediad at gronfa ddysgu bersonol, hyblyg y gallant ei defnyddio drwy gydol eu hoes.
- **Buddsoddi mewn cyflwyno Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol** i gefnogi oedolion sydd ag ychydig iawn o gymwysterau i gael cydnabyddiaeth o'r sgiliau sydd ganddynt. Bydd hyn yn helpu dysgwyr gael llwybr carlam tuag at gyflawni cymwysterau cydnabyddedig a'u darparu â'r cyfle i gael swyddi sy'n gofyn am sgiliau uwch ac sydd â chyflogau uwch.
- Cydnabod y cyfleoedd a'r heriau a ddaw gyda datblygiad AI drwy weithio gyda cholegau i **sicrhau fod pob oedolyn â mynediad i'r dysgu sydd ei angen arnynt i ddeall hanfodion defnyddio AI.** Dylai colegau gael eu hariannu a'u cefnogi gan Lywodraeth nesaf Cymru a Medr i fod yn ddarparwyr rheng flaen dysgu sylfaenol mewn deallusrwydd artiffisial, i fod yn rhan o'r llwybr i yrfaoedd mewn deallusrwydd artiffisial ac i gefnogi cyflogwyr i uwchsgilio eu gweithluoedd.
- **Rhaid gwerthfawrogi Addysg Gymunedol i Oedolion** am y gwaith y mae'n ei wneud i wella sgiliau, cryfhau cymunedau a chyfrannu at well iechyd a lles. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru barhau i gydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn sgiliau sylfaenol oedolion fel rhifedd, llythrennedd a llythrennedd digidol a gweithio gyda'r sector i greu partneriaethau dysgu oedolion cryfach sy'n sicrhau darpariaeth barhaol a chynaliadwy.
- Cydnabod gwerth ac effaith teuluoedd yn dysgu gyda'i gilydd **drwy gyflwyno Polisi Dysgu Teuluol newydd** a chefnogi colegau i weithio gydag ysgolion i ddarparu cyfleoedd ar gyfer addysg oedolion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.



Mae cyfranogiad mewn dysgu gydol oes wedi gostwng yn y ddegawd ddiwethaf yng Nghymru gydag anghydraddoldebau mawr o ran mynediad at ddysgu yn ôl oedran, grŵp economaidd-gymdeithasol, a chyrhaeddiad addysgol blaenorol.

Yng Nghymru mae'r gyfran sydd â chymhwyster Lefel 4 ac uwch 3% yn is na chyfartaledd y DU.[5]

**3%**

Mae canfyddiadau'n dangos bod nifer cynyddol o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru â diffyg cymwysterau ac yn brin o sgiliau hanfodol.

Nid yw bron hanner yr oedolion o'r grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf wedi cael unrhyw hyfforddiant ers iddynt adael addysg amser llawn.

Nid oes gan 13.3% o bobl anabl unrhyw gymwysterau o'i gymharu â 4.6% o bobl nad ydynt yn anabl sydd â chymwysterau.[4]

**13.3%**

o gymharu â

**4.6%**



[4] Swyddfa Ystegau Cenedlaethol: Canlyniadau i bobl anabl yn y DU: 2021
[5] 2024 StatsCymru: Lefelau uchaf o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio yn ôl gwlad yn y DU, rhanbarth a chymhwyster

# Astudiaeth Achos: Grymuso Teuluoedd, Trawsnewid Dyfodol



Ers 2014, mae Grŵp Dysgu Rhieni – Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd, mewn partneriaeth ag Addysg Oedolion Cymru, wedi dod i'r amlwg fel enghraifft o gyfle, gan ddangos manteision dwfn a phellgyrhaeddol addysg oedolion, yn enwedig i fenywod a'u teuluoedd.

Gan weithredu yn Ysgol Uwchradd Cathays, lle mae bron i hanner y dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dros 65 o ieithoedd yn cael eu siarad, mae'r Grŵp Dysgu i Rieni yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag anghenion unigryw'r gymuned incwm isel hon. Trwy gynnig ystod o gyrsiau achrededig a heb eu hachredu, mae'r cynllun yn grymuso rhieni, menywod yn bennaf, gyda'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i gefnogi taith addysgol eu plant a dilyn eu twf personol a phroffesiynol eu hunain.

Mae'r effaith yn mynd ymhell y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Gan gydnabod anghenion cyfannol teuluoedd, mae'r grŵp wedi rhoi systemau cymorth hanfodol ar waith fel rhaglenni rhannu bwyd a gwasanaethau llesiant, gan gynnwys cymorth imiwneiddio hollbwysig. Mae llwyddiant eu clwb brecwast, sy'n gweini bron i 500 darn o dost bob wythnos, yn tanlinellu'r cysylltiad rhwng anghenion sylfaenol ac ymgysylltiad addysgol, gan roi hwb amlwg i bresenoldeb myfyrwyr trwy sicrhau bod plant yn dechrau eu diwrnod wedi cael maeth ac yn barod i ddysgu.

Mae effeithiau ehangach y fenter dysgu i oedolion hon yn ddiriaethol a thrawsnewidiol. Mae bron i 50 o fenywod sydd wedi ymgysylltu â'r Grŵp Dysgu Rhieni wedi ailymuno'n llwyddiannus â'r gweithlu ar draws sectorau amrywiol, gan gynnwys addysg a gofal. Mae'r annibyniaeth economaidd newydd hon nid yn unig yn cynyddu incwm y teulu ond hefyd yn gwella ansawdd cyffredinol eu bywyd yn sylweddol.

Yn hollbwysig, mae'r rhaglen wedi chwarae rhan hanfodol wrth feithrin sgiliau a magu hyder, yn enwedig ymhlith menywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y gymuned. Trwy rymuso'r menywod hyn i oresgyn rhwystrau ac ailymuno â'r gweithlu, mae'r Grŵp Dysgu Rhieni nid yn unig o fudd i deuluoedd unigol ond hefyd yn darparu sgiliau a thalent gwerthfawr i'r economi leol.

Mae llwyddiant y Grŵp Dysgu Rhieni - Ysgol Uwchradd Cathays yn enghraifft bwerus o fanteision ehangach buddsoddi mewn mentrau addysg i oedolion ledled Cymru. Trwy arfogi unigolion â sgiliau hanfodol, magu hyder, a darparu rhwydweithiau cymorth hanfodol, mae'r rhaglenni hyn nid yn unig yn grymuso unigolion a theuluoedd ond hefyd yn cyfrannu at weithlu mwy medrus, economi leol gryfach, a dyfodol tecach a mwy cynaliadwy i holl gymunedau Cymru. Mae'r fenter hon yn amlygu'r rôl hanfodol y mae addysg i oedolion yn ei chwarae wrth dorri cylchoedd anfantais ac adeiladu cymdeithas fwy gwydn a llewyrchus.

Mae effaith y Grŵp Dysgu Rhieni wedi'i chydnabod, gyda'r grŵp yn ennill Gwobr Cyfraniad Cymunedol Addysg Oedolion Cymru 2025. Mae rhagor o wybodaeth am waith ac effaith y Grŵp Dysgu Rheini - Ysgol Uwchradd Cathays i'w gweld yn y **fideo byr hwn**.





# Cenhadaethau a Ategir gan Sefydlogrwydd Ariannol

**Ni ellir cyflawni'r tair cenhadaeth heb gydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â phwysau ariannol yn y sector a sicrhau fod gan golegau well sefydlogrwydd ariannol tymor-hir a hyblygrwydd gweithredol i fodloni anghenion eu cymunedau.**

Er gwaethaf prosesau rheoli ariannol gofalus phroffesiynol ar draws y sector, mae pwysau gwirioneddol ar AB o hyd oherwydd y cynnydd mwyaf erioed yn nifer y dysgwyr sy'n dewis coleg ar ôl ysgol, codiadau cyflog nad ydynt wedi'u hariannu'n llawn, costau chwyddiannol cyflwyno cyrsiau heb eu hariannu a'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.

Er mwyn cefnogi mwy o sefydlogrwydd ariannol yn y sector ac i ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen ar golegau i ddarparu ar gyfer dysgwyr a chyflogwyr, dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithio gyda Medr i:

- Cyflwyno cylch cyllideb tair blynedd ar gyfer AB a Dysgu Seiliedig ar Waith fel y gall colegau gynllunio ar gyfer y tymor hir, gan gynnwys cronfeydd cyfalaf. Mae dadansoddiad diweddar gan ColegauCymru yn dangos bod cofrestriadau yn y grŵp oedran 16-18 ar gyfer 2024/25 wedi cynyddu 8.27% ers 2023/24. Mae ffigurau cofrestru wedi cynyddu'n arbennig ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n dod i mewn ar lefelau is, a dysgwyr sydd angen cymorth i aros mewn addysg.
- Ailymrwymo i ariannu cydraddoldeb graddfa gyflog rhwng darlithwyr AB ac athrawon ysgol a darparu cyllid ychwanegol i helpu i dalu costau cyflog staff cymorth busnes a dysgu seiliedig ar waith, ac ymrwymo i ariannu'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn llawn.
- Cychwyn adolygiad rheoleiddio trawslywodraethol i ryddhau adnoddau drwy leihau beichiau rheoleiddiol â blaenoriaeth isel. Ochr yn ochr â buddsoddiad newydd, gall arbedion effeithlonrwydd gwirioneddol ryddhau adnoddau y gellir eu defnyddio'n well i gefnogi dysgwyr a gwella addysgu a dysgu.
- Ymrwymo i gyllid cynaliadwy hirdymor i sicrhau rolau Hyfforddwyr Bugeiliol ar draws colegau fel bod dysgwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ac y gellir canolbwyntio llwyth gwaith darlithwyr ar addysgu a dysgu o ansawdd uchel.
- Cynyddu'r gyfradd ariannu fesul uned i gwrdd â chostau chwyddiannol llawn darparu addysg o ansawdd uchel.
- Ariannu darpariaeth a chymorth ADY yn gynaliadwy. Mae data colegau yn dangos y rhagwelir cynnydd mewn costau yn sgil y dyletswyddau ADY newydd. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 mae colegau yn amcangyfrif costau ychwanegol o £2.7miliwn. Mae arweinwyr ADY yn awgrymu y bydd y costau ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn nes at fwy na £3miliwn.

**Rhestr Aelodau:**

Addysg Oedolion Cymru
Coleg Penybont
Coleg Caerdydd a'r Fro
Coleg Cambria
Coleg Gwent
Coleg Sir Benfro
Coleg Sir Gâr / Coleg Ceredigion
Coleg y Cymoedd
Coleg Gŵyr Abertawe
Grŵp Llandrillo Menai
Grŵp Colegau NPTC
Coleg Catholig Dewi Sant
Y Coleg Merthyr Tudful

Am fwy o wybodaeth, ewch i
**www.colegau.cymru**

**@colegau.cymru**
**ColegauCymru | CollegesWales**